Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 9.] MEDI, 1907. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Cyfarchiadau.
Yr Ymofynydd 1847-1907.
R. J. Jones, M.A., Aberdar.
Cyfnod Golygiaeth R. J. J.
J. Hutliren Davies, Cefncoed.
Yr Ymofynydd yn Driugain Oed.
Alva.
Achos y Myfyrwyr.
Congl yr Awen.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD. PRIS 3s. DRWY Y POST, 3s. 3c.

Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes,

GAN

J. JONES (Myrddin Fardd).

ADOLYGIADAU:

"I bawb a gar werin ei whad, ac a awydda wybod mwy am ei hiaith a'i harferion, y mae'r gyfrol yn werthfawrusach nag arian."—*Gwalia.*

"Llyfr cywrain tuhwnt yw "Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon," dyry i ni fudd a difyrwch."—*Spinther.*

"Dyma lyfr difyr odiaeth, a gwerthfawr gyda hyny."—*Alafon.*

I'w gael oddiwrth yr Awdwr—

MYRDDIN FARDD,

CHWILOG, R.S.O., CARNARVONSHIRE.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1907. [CYF. VII. RHIF 9.

NODION Y MIS.

YDA'R rhifyn hwn dathla yr YMOFYNYDD ei driugeinfed flwydd. Wrth edrych yn ol dros y cyfnod maith hwn fe'n tarewir a syndod wrth ganfod y beiddgarwch a'r yspryd ymosodol nodweddai gymeriadau yr hen weinidogion. Cychwynasant y misolyn bychan gyda sel a brwdfrydedd mewn cyfnod pryd yr oedd anhawsderau fil i'w gorchfygu. Ni ddarfu iddynt erioed betruso taflu yr "arad bren" i'r tân, chwedl Gwenogfryn, pan wawriai arnynt ffordd well a mwy effeithiol i aru'r meusydd. Ac ar derfyn triugain mlynedd y mae genym achos diolch, nid yn unig am y llafur cyson a'r hunanaberthu mynych fu yn nodweddu'r gorphenol, ond fod y rhagolygon yn awr mor obeithiol. Y mae genym addewid gohebwyr lluosog, ieuainc a hen; a chyda help dosparthwyr a derbynwyr, credwn y gallwn yn llwyddianus gadw ein golwg ar y nod uchel osodwyd o flaen y cylchgrawn ar y dechreu, sef Anog a Chynorthwyo Rhyddymofyniad.

Y mae yn fater i lawenychu o'i blegid fod o hyd yn aros un gohebydd ffyddlawn, yr hwn ddechreuodd gyda dechreuad yr YMOFYNYDD, ac a barhaodd drwy'r blynyddoedd hirion y fath gymhorth i bob Golygydd, ac nid yw ei ysgrifell wedi sychu hyd y dydd hwn. Y mae yr un peth yn mron bod yn wir am y llafurus a'r diwyd R.J.J. yr hwn o'r holl ffyddloniaid yw y ffyddlonaf yn y blynyddoedd diweddaf hyn.

Gwerthfawrogwn y cyfarchiadau gwresog welir yn y rhifyn hwn, ac yn arbenig felly ddymuniadau da y lenores fydenwog Allen Raine. Gobeithiwn, cyn hir, os y try ein cynlluniau allan yn llwyddianus, osod ger bron ein darllenwyr, mewn diwyg Gymraeg un o'i ffug-chwedlau mwyaf adnabyddus.

CYFARCHIADAU.

YR wyf yn dymuno llongyfarch yr YMOFYNYDD ar ei waith yn cyrhaedd ei driugain mlwydd oed ddiwedd y mis hwn—oes mwy nag oedd braidd un o'i gyfeillion mwyaf gwresog yn addaw iddo. Ar y cychwyn ymddangosai y rhwystrau yn ddirif ac anorchfygol braidd, ond trwy amynedd a dyfalbarhad aeth trwyddynt oll yn fuddugoliaethus. Y mae yn penderfynu byw yn mlaen, a thebygwn fod ei ragolygon presenol yn llawer mwy addawol nag y buont erioed yn y gorphenol; mae yspryd rhydd-ymofyniad ar ei gynydd yn mhlith yr enwadau, ac ni chyfrifir y misolyn bychan yn gymaint o ysgymunbeth ag y gwneid pan ddaeth i'r maes gyntaf. Cofier yn barchus am yr hen weinidogion a ddygasant yr YMOFYNYDD i'r maes gyntaf ac a fuont yn ffyddlon eu gwasanaeth iddo fel Golygwyr a gohebwyr. Yr oeddwn innau y pryd hwnw fel gweinidog ieuanc newydd ddyfod allan o'r plisg yn fawr fy sêl dros yr achos, ac er yn analluog i fod o fawr wasanaeth y pryd hwnw yr oeddwn yn awyddus i gael fy nghyfrif o leiaf yn ohebydd o radd isel. Llwyddais yn hyny o beth, a gwelir fy enw mewn dwy brif lythyren fawr yn y rhifyn cyntaf. Ymddangosodd wedi hyny amryw erthyglau o'm heiddo o bryd i'w gilydd, ond nid yn ddiweddar. Da genyf fod cynifer o ohebwyr wedi dyfod i'r maes yn ddiweddar gydag erthyglau campus, a gobeithio y bydd iddynt barhau i roi eu gwasanaeth. Er cychwyniad y misolyn y mae wedi bod yn ffortunus iawn yn ei olygwyr. Drwg genyf fod Mr. James, oherwydd afiechyd, wedi gorfod rhoi fynu yr olygiaeth, ond hyderwn y daw iddo adferiad buan, ac y bydd eto mor gryf a nerthol ag erioed.

Greenpark. T.T.

Llongyfarchiadau fil i'r YMOFYNYDD pan yn cyrhaedd ei driugeinfed flwydd. Y mae yn llawenydd i mi feddwl fod y fath *idea* a'r YMOFYNYDD wedi ei eni yn nghalonau ein tadau Cymreig yn nghanol y rhagfarn a'r culni a'u hamgylchynai yn mhob cyfeiriad. Llawenhaf am wasanaeth ffyddlon y cylchgrawn am driugain mlynedd o dan faner rhydd-ymofyniad a rhyddid perffaith meddwl a llafar. Diolchaf fod ei wyneb heddyw fel o'r blaen at y wawr—at godiad haul, nad oes ond rhai pelydrau o hono wedi ymddangos uwchlaw y terfyngylch. Arosed fel o'r blaen yn ffyddlon i'w draddodiadau goreu, a gwasanaethed yr ugeinfed ganrif yn deilwng o'i safle unig ac arbenig yn hanes llenyddiaeth gyfnodol Cymru.

Brynhyfryd. W. JAMES.

Yr oedd yn ddrwg iawn genyf pan welais grybwylliad fod Mr. James yn cael ei luddias gan afiechyd i gario yn mlaen olygyddiaeth yr YMOFYNYDD, ac eiddunaf iddo adferiad buan. Yr oeddwn mewn

tipyn o bryder ar y pryd, ond nid hir y bu yn dywyll cyn i'r wawr dori, er gorfoledd i lawer, a daeth y penill cysurlawn hwnw i'm cof, sef—

"Os bydd eisieu agor moroedd
Bydd rhyw Foses yn gyfleus;
Ni cha'r nefoedd un Elias
Heb i'r byd gael Eliseus."

Felly mewn un ystyr yn bresenol. Mae yr olygiaeth wedi syrthio i ddwylaw cymhwys, cynefin a'r gwaith o'r blaen, ac yn ei wneud yn rhanol. A gawn ni, ynte, wneud ein goreu dros yr unig gyhoeddiad Cymreig a feddwn fel Undodiaid? Mae gan bob un ychydig i'w wneud, er ei ddwyn yn fwy teilwng; mae wedi bod yn faeth ysbrydol i lawer o'n hen dadau ag sydd, er ys tro, wedi "rhwyfo dros yr afon." Mae Undodiaeth yn disgwyl arnom i wneud ein dyledswydd. Gan hyny, ceisied ei ohebwyr, ei ddosbarthwyr a'i ddarllenwyr wneud yr hyn a allant i ledaenu ei gylchrediad, a'i ddwyn i fwy o fri nag erioed, ac ni fydd iddynt edifarhau am eu gwaith. Y mae yn awr driugain mlynedd i'r mis hwn (Medi 1847) er pan ddaeth y rhifyn cyntaf allan, a da y cofiaf am hyny, a'r lle yr oeddwn pan y cefais ef o law y Parch. Rees Davies, Penbryn, gweinidog Capelygroes, a chefais y fraint, pe braint hefyd, o fod yn ddosparthwr cyntaf iddo yn ardal y Cribyn; a chefais y pleser o ysgrifenu rhywbeth iddo yn mron o'i gychwyniad, ac y mae fy "mron braidd yn rhy lawn i'm tafod lefaru" wrth son am yr amser dedwydd hwnw. Teimlem yn falch iawn o gael nodyn oddiwrth ei olygydd hynaws a phwyllog, y Parch. J. Edward Jones, Penybont-ar-Ogwy. Yr oedd iddo ohebwyr llafurus a dysgedig, ond y mae y mwyafrif wedi "syrthio" a gwelwyd "bwlch yn y mur"; ond bydd eu henwau'n perarogli am hir amser. Cafwyd golygwyr ffyddlawn a galluog iddo trwy'r blynyddau; a dymunaf bob llwydd a hwylusdod i'r ddau sydd yn ei gario yn mlaen yn awr; ac ond i bawb wneud eu goreu i'w cyfnerthu, cawn weled yr YMOFYNYDD eto yn llewyrchu mewn gogoniant.

Byd "gwyn" i'r YMOFYNYDD;—caffed nawdd,
Caffed nerth o'r newydd;
Dylem roi, a rhoi yn rhydd,
Dda lôg i'w ddau olygydd.

DEWI HEFIN.

Gwelais gyda'r dyddordeb cynhesaf yn eich rhifyn am Awst y bydd yr YMOFYNYDD yn dathlu ei driugain mlwydd oed y mis nesaf. Wn i ddim yn iawn beth yw'r ffurf Gymraeg o ddadgan y teimlad o edmygedd ac ewyllys da ag sydd yn sier o godi yn mynwes pob un o'i ddarllenwyr ar y fath achlysur. Maddeuwch i mi, gan hyny, am gyfarchu'r hen ffrynd anwyl yn null y Sais, a dywedyd o waelod fy nghalon—*Many Happy Returns.* Hwylusdod i'w gylchrediad, a chaffed lu mawr o ddarllenwyr newyddion o fis i fis ac o flwyddyn i flwyddyn. A iechyd a phob bendith arall i chwithau fel ei Olygwyr. Tua deuddeng mlynedd yn ol, pan glywais i gyntaf erioed fod yna

fisolyn Undodaidd Cymraeg, aethum yn y man dros ddeng milldir o ffordd i chwilio am rifyn o hono. Llwyddais i gael un, a chyn i mi gyrhaedd gartref yr oeddwn wedi darllen pob gair o hono gydag awch anghyffredin—*advertisements and all*, chwedl fy hen gyfaill Lloyd Jones o Lerpwl. Ac o'r pryd hwnw hyd yn awr, 'rwyf yn dilyn ei dudalenau bob mis gyda hyfrydwch ac adeiladaeth. Gyda'r dymuniadau goreu am hir oes a helaethiad dylanwad i'r YMOFYNYDD.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

D. DELTA EVANS,

Golygydd y *Christian Life*.

Fel darllenwr cysson o'r YMOFYNYDD oddiar y cof cyntaf gennyf mae'n blesser meddwl fod anadl enioes yr hen gyfeill yn cryfhau. Mae trigein mlynedd yn byrhau gwynt ac yn sierro garreu dyn, ond fu gwynt yr YMOFYNYDD erioed yn well nag yn y ganrif hon, ag mae wedi cymryd adenydd iddo i hun, ag fel y frân yn sylwi ar betheu tuhwnt i'r clôs gartref. "Rhaid edrych ar ol ga'tre,"—rhaid ar bob cyfrif. Rhaid hefyd fynd i ffair a marchnad, i'r *Cattle Shows*, i bob ymddangosfa o doreth y wlad. Rhaid sylwi ar holl symudiadeu'r byd. Ni wneir Sion Ben-mynydd yn ben-siryf, na Sion Ben-ffair yn ben-gweithwr. Y dyn sy'n symud, yn sylwi, ag yn gweitho sy'n llwyddo. Fe sy'n rhoi'r arad bren gynta ar y tân. Diolch fod oes yr arad bren wedi diflannu, a gwae ni fod meddylieu oes yr arad bren yn llechu ynghongleu'n gwlad o hyd. "Rhaid," meddei y Parch. Puleston Jones, "bregethu heddiw a ddyscwyd yn blentyn, cyn bod yn boblogedd." Mae meddylwyr oes yr arad bren yn lleng. Ond na anobeithwn :

Torf o'r brodyr sydd yn gorwedd
Yn y bedd, *anghofus dir*.

Nid oes anfarwoldeb ynglŷn a dim wnaed o bren. Mae dyddieu melyn y *dogmatic theologian* wedi'u rhifo. Mae'r yscolfeistr yn agor llygeid meddwl y dô sy'n codi, ag mae hyd y nod y canol-oed yn dechreu dyall mae yn y goleuni ag nid yn y twrw y mae'r nerth. Nid "proffesu," ond byw'n lân, nid crêd ond crefydd sydd eisieu ar y byd. Dyna fu, a thyna'n debig fydd neges yr YMOFYNYDD. Nid gwasanaethu sect ond dyrchafu ffagleu'r gwirionedd, a chasclu mêl o bob gardd a blodeuyn y gwena y nef arnyn. Mae ffrwd ysprydoliaeth y Duw *byw* yn ddidorr. Nid adnebydd Ef un genedl nag un oes yn fwy na'r llall, er y derbyn ambell i oes ne ambell i genedl fwy nai gilydd o'r goleuni. Nid Efe ond nyni sy'n gwahaniaethu. Nid i ddewis Ef ond yn dewis ni sy'n peri sychder ynom. Yr wyf yn gobeithio na wneiff llygeid yr YMOFYNYDD fyth bylu, na wneiff i glustieu fyth fethu clywed y llais distaw main, na roir cylch sect fyth ar y gydymdeimlad ai ragolygon, ag nai lluddir fyth gan ofn yr Iddewon. Hir oes iddo i ddal fyny'n wrol faner rhyddid—rhyddid meddwl, barn a llafar pob un drosto i hunan, a neb dros i gymydog.

J. GWENOGFRYN EVANS.

I observe with pleasure that the sixtieth anniversary of the first issue of the YMOFYNYDD is at hand, and I congratulate you heartily on the continued excellence of its literary merits. I hope it may long continue to maintain its present high standard and to diffuse the broad and liberal religious views which it has hitherto so forcibly and yet reverently upheld.

Bronmôr, Traethsaith,
Cardiganshire.

ALLEN RAINE.

YR YMOFYNYDD, 1847-1907.

Gyda'r mis hwn (Medi) cyrhaedda'r YMOFYNYDD ei driugain mlwydd oed, a golyga hyny ei fod yn hen fel y mae oed cylchgronau yn myned gyda ni yn Nghymru. Ond y mae'n dda genyf weled ei fod, er yn hen, mor hoyw a gwisgi, ac mor ymroddedig i'w ddyledswyddau cyhoeddus ag y bu erioed. Nid yw meddwl am y 60 mlynedd, fodd bynag, ddim heb awgrymu llawer i mi, a llawer o'r llawer hyny ddim heb beri teimladau cymysg. TRIUGAIN OED! Ie, cyfrifwn ef yn hen, ond yr ydwyf fi'n cofio ei eni. Yn wir, yr wyf yn cofio'r hyspysiad aeth allan i rybuddio'r cyhoedd pa bryd y gallent ddisgwyl iddo gael ei eni. Y mae copi o'r hyspysiad hwnw o fy mlaen yn awr, a chredaf ei fod yn werth ei osod ar gof a chadw, ac y darllenir ef heddyw gyda dyddordeb newydd. Felly, dyma fe'n canlyn :

"YR YMOFYNYDD.

Cyhoeddir mor gynted ag y ceir nifer digonol o Gefnogwyr, Pris 3c. Y Rhifyn Cyntaf o Gyhoeddiad Misol, dan yr enw uchod, yn cynwys Traethodau, Gohebiaeth, &c., ar destynau Moesol a Christionogol ; yn nghyd ag hanesion.

Amcan y Cyhoeddiad fydd, annog a chynorthwyo rhydd-ymofyniad—taenu gwybodaeth o wir feddwl yr Ysgrythyrau—ac yn neilldnol i fod yn Gyfrwng i osod gerbron y Cymry ffrwyth ymofyniadau dynion o wahanol dybiau, ynghylch gwirioniedd a llesoldeb, neu ynte anwiredd a drygioni athrawiaethau poblogaidd yr oes a hyny er galluogi y Darllenydd i farnu drosto ei hun.

Teimlwyd gan amryw fod eisieu y fath Gyhoeddiad ; ac AM HYNY, nid mewn gwrthwynebiad i Gyhoeddiadau eraill, y gwneir y Cynnygiad hwn. Nid elw sydd mewn golwg ; ond buddioldeb cyffredinol A rhoddi chwareu teg i bawb.

Y Cyhoeddiad fydd dan olygiad John E Jones (Gweinidog Undodaidd), Penybont, Morganwg ; yr hwn a fydd ddiolchgar am bob peth a ddanfonir iddo a fydd yn addas i'w gyhoeddi yn yr Ymofynydd. Derbynir enwau dan-scrifwyr ganddo ef ; ac hefyd gan y Parch. R. Davies, Capelygroes ;—T. Thomas, Pant-y-defaid, Sir Aberteifi ;—D. Lloyd, M.A., Caerfyrddin ;—D. Griffiths, Llandilo ; —J. Jones, Aberdar ;—O. Evans, Coedycymmer ; ac eraill fyddont yn ewyllyswyr da i'r Cyhoeddiad."

Mehefin 1, 1847.

Golygydd cyntaf YR YMOFYNYDD —o Medi, 1847, hyd Ebrill, 1854, ac o Ionawr, 1859 hyd Mehefin, 1865, oedd y

PARCH. JOHN EDWARD JONES,

Penbont-ar-Ogwr, ac ni fu erioed ei well. Nid yw'r Golygydd wedi ei eni eto a fedr foddloni pawb ; ond fe lanwodd Mr. Jones ei swydd yn ardderchog. Rhoddodd yr olygiaeth i fyny oherwydd henaint a methiant, a bu farw Chwefror 25, 1866, yn 64 oed. Yn ei fywgraffiad o hono yn "Yr Athraw" (tud. 185) dywed Gwilym Marles fel hyn :

"Fel Golygydd yr oedd yn gall a phwyllog a boneddigaidd, ac mor anmhleidiol ag i allu dal y glorian mor deg fel nad oedd gan neb sail gyfreithlawn i'w feio yn ei swydd. Credwn nad ysgrifenodd air fel golygydd y dewisasai yn ddiweddarach ei alw yn ol. Yr oedd ei erthyglau bob amser yn werth eu darllen ac yn ddarllenadwy ; ei arddull yn rhwydd a llithrig, eglur a hollol ddiaddurn. Hawdd canfod bob amser fod ganddo afael sicr ar ei bwnc, ac mai o helaethrwydd ei wybodaeth yr ysgrifenai. Pan derfynodd y gyfres gyntaf yn 1854, yn hollol groes i'w ddymuniad ef y bu hyn ; a phan ail gychwynwyd yn 1859, siriol ymgymerodd a'r olygiaeth drachefn."

Darllener yr hyspysiad yn fanwl a gofalus. Sylwer ar yr amcan mewn golwg ac ystyrier pa mor bell y mae wedi cyrhaedd yr amcan. Gosododd nod uchel o'i flaen a gwnaeth gais teilwng i'w gyrhaedd a theimlwn yn yn ddiolchgar am a wnaeth.

'Tis not in mortals to command success,
We will do more, deserve it.

Teilyngodd lwyddiant a chredwn iddo sicrhau mesur da o hono. Sylwn ar ddyddiad yr hyspysiad—Mehefin 1, 1847. Bu son am gyhoeddiad am flynyddau meithion cyn hyny, gan John Jones tua 1835, Dr. Charles Lloyd tua 1829, Tutor D. L. Jones a'r Parch. John Evans, Caerfyrddin yn 1824,* ond y boreuaf y gwn i am dano yw eiddo'r Parch. Richard Wright yn ei lythyr at Undodiaid y deheubarth yn 1816. Gweler copi o'r llythyr yn YMOFYNYDD, 1853, t. 20.

Argraffwyd YMOFYNYDD 1847-48 yn Nghaerfyrddin gan Josiah Thomas Jones, gwr a wnaeth lawer o aberth dros lenyddiaeth Cymru. Nid oedd cyfleusderau dosparthu'r pryd hwnw y peth ydynt yn awr. Nid oedd yna'r un S.W.R. na'r un V.N.R. mewn bodolaeth eto i gysylltu gwahanol drefi a'u gilydd, ac yr oedd y draul i anfon yr YMOFYNYDD i rai cyfeiriadau yn drwm. Os nad yw fy nghof yn fy nhwyllo delai sypyn Aberdar o Gaerfyrddin gyda'r *coach* i Hirwain. A gaf fi adrodd tipyn o brofiad plentyn? Cofiaf fyned i Hirwain un tro i nol yr YMOFYNYDD. Yr oedd y ffordd yn mhell, a'r pryd hwnw yn unig ac yn noeth. Pan oeddwn tua haner y ffordd yn dychwelyd yn ol, pwy welwn i yn dod i gwrdd â mi ond fy nhad Synais beth, ond llawenychais fwy, gan fod y sypyn yn drwm i fychan fel myfi—yr oedd gryn lawer yn drymach na'r sypyn gludir heddyw gyda'r tren i Aberdar. Y teimlad o flinder wasgai fwyaf arnaf fi, ond tebyg fod ei feddwl ef wedi ei feddianu gan rywbeth arall mwy difrifol ; gan fod ei

FFON-GLEDDYF GANDDO YN EI LAW—

offeryn allasai fygwth perygl pe digwyddasai lleidr groesi ei ffordd. Ni welais y ffon hono gydag ef erioed ond y tro hwnw.

Argraffwyd cyfrol 1839 gan Wm. Winstone yn Mhenbont, ac o ran pryd a gwedd mae yn welliant mawr ; cyfrol 1850, gan David Evans, swyddfa'r "Principality," yn Nghaerdydd ; ac o 1851 hyd 1865 gan Wm. Leyshon yn Mhenbont. Mantais fawr i'r Golygydd oedd cael yr argraffdy yn agos ato.

Cofiaf fy mod yn disgwyl dyfodiad misol yr YMOFYNYDD gyda dyddordeb mawr, ac eto o'r braidd y credaf fy mod yn deall llawer o hono, gan fod fy Nghymraeg yn rhwym o fod

* YMOFYNYDD, 1907, t. 24.

yn brin iawn. Saesneg oedd iaith fy nghartref. Gydag ymroad diflin a pharhaus fis ar ol mis i'w ddarllen cefais ef yn foddion i loywi cryn lawer ar y tipyn Cymraeg oeddwn wedi ddysgu gyda phlant yr heol ac yn y capel ac yn yr Ysgol Sul. Byddai yn dda genyf am yr YMOFYNYDD heddyw pe dim ond am hyny; ond y mae troi dail ei hen gyfrolau wedi bod i mi yn fynych yn help i dreulio llawer i awr hapus. Cyn cychwyn ar yr erthygl tybiwn fy mod yn bur gynefin a'r oll, ond yn awr gorfyddir fi i gyffesu fod mantell anghof wedi syrthio ar rai o'r ffug-



J. E. JONES.

Golygydd 1847-54; 1859-65.

enwau fel ag i'm rhwystro i adnabod eu perchenogion. O'r holl ysgrifenwyr bore

NID OES YN AROS OND UN,

a cheir ei enw ef ar tudalen 48, gyda'r dyddiad Medi 13, 1847 ar waelod y penill canlynol:

Gyfaill anwyl, ti ddihangaist
Adreu 'chydig o fy mla'n,
Ar dy ol yn hir ni byddaf
Yma'n canu'th alar gân;

Mae fy ffydd yn awr yn tremio
Ar yr ardal hyfryd draw,
Lle caf eto'th ail gyfarfod
Uwch llywodraeth Brenin braw.

T.T.

Rhyfedd mor dueddol yw'r gwr ieuainc i fwrw golwg yn nghyfeiriad gorwel amser.

Parhaodd Mr. Thomas yn ohebydd medrus, ffyddlawn a rheolaidd drwy'r blynyddoedd hyd yn ddiweddar, a da genyf ddeall fod gobaith am air oddiwrtho erbyn y rhifyn hwn. Dymunaf gyfeirio sylw arbenig y darllenydd at ddwy gyfres o'r erthyglau fel enghreifftiau teilwng—Eglwys Loegr (1850), Capel Sant Sylfed (1853).

Fe'm hesgusodir i, gobeithio, os gwnaf ymddiheurad fan yma. Yr wyf mewn tipyn o anhawsder gyda golwg ar y llwybr goreu i'w ddilyn er mwyn gosod gerbron frasolwg boddhaol ar bwnc fy nhestun—a bras y rhaid iddo fod er cwmpasu maes mor eang mewn un erthygl. Fe ddisgwylir rhywbeth fydd yn ddyddorol, wrth gwrs, ac yn ddarllenadwy. Ni fydd neb yn foddlawn ar ryw lechres sych o enwau a ffeithiau yn unig, ac nis gallaf fi yn fy myw a gweled sut i gael rhagor i fewn; ond rhaid yw Hai Ati a threio'r goreu.

Y prif ysgrifenwyr ar y dechreu oedd y Golygydd (I); Owen Evans (Philalethes, Amicus, Basanistes, &c.); John Jones; D. L. Evans (Philo); Thomas J. Griffiths (Tau Gimel); Titus Evans (Axa); D. Griffiths (Cognatus), y pryd hwnw o Onen Fawr; a'r tri lleygwr, Thomas Stephens; J. Rhys, Pendarren; a J.W. (Joseph Williams, Llynlleifiad)* yr hwn a aeth i America yn 1850. Collwyd gwasanaeth gohebydd diwyd yn 1850 pan aeth D.L.E. i Loegr. Y mae gwerth cyfrolau 1849-51 yn dibynu'n benaf feallai heddyw ar gynyrchion y lleygwyr crybwylledig. Traethodau eisteddfodol gwobrwyedig sydd gan J.R. fynychaf, tra mae Stephens yn caru ymdrin a rhyw ganghen o lenyddiaeth Gymraeg—e.e., Arwydd-feirdd Cymry, 1849-50; Llenyddiaeth y Cymry yn y Canol Oesoedd, 1853; Dadl y Nôd Cyfrin, 1853; Sefyllfa Wareiddiol y Cymry, 1859-61. Y mae'n syn na fyddai mwy o ddarllen ar y Traethodau gwerthfawr hyn. Ond mae'n bosibl mai'r peth goreu, oddiar y safle Undodaidd, a ddaeth o dan law Mr. Stephens yw Cofiant Iolo Morganwg, 1852; Ei Nodweddion, 1853. Cofiaf y diweddar Dan Isaac Davies, o barchus goffadwriaeth, yn dweyd un tro i fywgraffiadau'r YMOFYNYDD fod iddo ef yn ieuanc yn symbyliad ag y teimlai yn ddiolchgar am dano. Dyma rai o honynt, Hywel Dda, 1848; Sion Cent, Catwg Ddoeth, Tycho Brahé, Kepler, John Biddle, 1849; Undodiaid bore, Thomas Firmin, Newton, Thomas Emlyn, 1850.

Dywedir yn yr Hyspysiad mai prif ddiben sefydlu y Cyhoeddiad oedd i

"ANOG A CHYNORTHWYO RHYDDYMOFYNIAD,"

a dyry'r Gol. i ni erthygl werthfawr i'r perwyl, 1847 tud. 25. Rhoddir un arall gan J.W. tud. 45, ac un arall drachefn gan Stephens, tud. 160, 180. Gweithir y cyfrolau cyntaf yn gryf i'r cyfeiriad hwn, ac nid ymddengys fod neb yn teimlo un rhwystr ar ei ffordd i draethu ei len y modd y myno. Dygir yr hen athrawiaethau poblogaidd ger bron un ar ol y llall, Pechod gwreiddiol, Iawn i Gyfiawnder, Y Drindod, Duwdod Crist, &c., at faen prawf Rheswm ac Ysgrythyr, ac wedi eu pwyso a'u mesur yn ofalus, dywedir eu bod yn rhy fyr o gyrhaedd yr un owns ar bymtheg i'r Pownd. Cyhoeddir y Mene Tecel weithiau yn ddiamheu gyda rhy fach o ystyriaeth o deimladau ac argyhoeddiadau, neu ragfarnau dynion. Ceir yma lawer hefyd ar wedd gadarnhaol athrawiaeth: Undod Duw, Cant o Resymau, Tystiolaeth Llyfr Natur am Dduw, Duw a'i Ddibenion yn ol ei air, &c. Dyddorol iawn yw'r ymddiddan

*Nis gwn i ddim pwy oedd y gohebydd hwn.

rhwng Llyfr Hymnau Joseph Harris a Christion, gan D.L.,* a'r ddadl rhwng O.E. a D.L.E., ar Sylfaen Crefydd, pa un ai yn yr Ysgrythyrau neu yn y Natur Ddynol y mae. Gallwn gasglu oddiwrth Ddadleuon yr YMOFYNYDD fod y Cymro fel ei gefnder o'r Iwerddon yn hoff o dipyn o "Friendly Fight." Ymddengys fod rhywbeth yn ngwaed y Celt sydd yn peri iddo ferwi drosodd yn gyflym iawn. O hyd ac o hyd y gwelwn ni J.J. a D.L.E. a O.E. ar agwedd y "Stand-up." Nid cynt y cychwynodd yr YMOFYNYDD na orfu i J.J.

D. L. EVANS. Golygydd 1868-72.

DORCHI EI LEWYS

i wynebu Jones, Llangollen; yn ddiweddarach O.E. mewn hunanamddiffyniad yn erbyn ymosodiad Gwesyn Jones. Mae'n debyg i Mr. E. draddodi pregeth yn Mhenbont Hydref 1, 1857 ar 1 Tim. 3 : 15. Hyn fu'n achos yr ymosodiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn yr *Annibynwr*. Fel un a gredai yn Nghrist fel y Gwir Dduw myntumiai Mr. Jones nad oedd Undodwr yn berson priodol i barotoi dynion ieuainc ar gyfer y

* Pwy oedd D.L. nis gwn. Methaf weled arddull y Dr. Lloyd o Gaerfyrddin yma.

pwlpud uniongred. Dechreuodd y ddadl yn yr *Annibynwr* ond cauwyd ef yn fuan yn erbyn Mr. E. Yr arferiad hwn o orfod sefyll yn erbyn ymosodiadau—mae wedi dadblygu yn yr Undodwr yspryd sydd wedi ei farnu gan rai yn groes i yspryd addfwynder—"Mae'n rhy barod i ddadleu," meddai dynion. Tystiai'r YMOFYNYDD nad oedd yn ddigon i'r brodyr anwyl ymladd yn erbyn y rhai tu allan; pan fyddai'n heddwch yno, fe'u ceid yn fynych yn ymfrwydro â'u gilydd—o hyd wrth gwrs yn *interest* Rhyddymofyniad—J.J. a D.L.E. ar ystyr y gair Kolasis, y gair am gospedigaeth yn Matthew 25 : 46. Yn ddiweddarach cawn Gwilym Marles mewn dadl ag O.E. yn nghylch syniadau Theodore Parker, ac â Dr. Lloyd yn nghylch y Ffydd Gadwedigol.

Cyflawnodd y brodyr da hyn waith gwerthfawr yn eu dydd ac mewn ffordd i ateb gofynion y dydd. Pan yn eu barnu ni ddylid anghofio eu bod yn ymladd dros eu hawl i fodolaeth, na synu eu bod yn defnyddio arfau trymion a thrwsgl. Nid yr un arfau ofynir yn amser rhyfel ag amser heddwch. Rhaid oedd i Luther a Chalfin a John Knox a John James wrth arfogaeth gref i amddiffyn ac i ymosod os byddai angen. A phan symudwyd *

YR HEN FILWYR DEWRION HYN

oddiar faes y rhyfel, a symudwyd hwy bron gyda'u gilydd i gyd, megys gan ryw lifeiriant nerthol, nid yw yn beth y dylid rhyfeddu wrtho, os ceir fod tôn a charitor yr YMOFYNYDD wedi newid mwy neu lai fel yr oedd to newydd o ysgrifenwyr yn dyfod i'r golwg ac yn raddol yn cymeryd meddiant o'r maes. Wrth gwrs, wedi peidio ffyrnigrwydd gwyntoedd gwrthwynebiad, ymlonyddodd y môr, suddodd petrel* yr storm o'r golwg, a daeth tawelwch mawr. Yr oedd prif bynciau dadleuol yr oes wedi derbyn sylw manwl, a thybid yn naturiol na fyddai eisieu triniaeth mor llawn arnynt byth mwy. Ond perthyn i bob oes ei hanhawsderau ei hun, ac nid oes gan y naill oes fawr amgyffrediad am drafferthion yr oes ddilynol. Pan ddinystriwyd Herculaneum a Phompeii gan ffrwydriad mynydd Vesuvius yn Awst 79 O.C., nid oedd gan y trigolion yr un dychymyg am y perygl oedd yn eu bygwth, yr oeddynt wedi byw wrth droed y mynydd mewn tawelwch perffaith am ganrifoedd yn hollol ddifeddwl; ac eto yr oedd yr ystrydoedd wedi eu palmantu a defnyddiau oeddynt wedi eu taflu allan gan ffrwydriadau blaenorol; yn gyffelyb nid oes yna fawr arwyddion ar faes yr YMOFYNYDD o ymwybyddiaeth gyffredin o'r cyfnewidiadau mawrion oeddynt yn ymyl i siglo seiliau yr hen dduwinyddiaeth, ond y mae'r stori hono yn rhy hir i'w hadrodd yn awr. Y mae ein gofod yn cyfyngu arnom a gwell fydd terfynu gyda gair am yr ysgrifenwyr newyddion.

Dechreuodd R.J.J. ei yrfa lenyddol yn wan bach yn 1853; cawn lith gyntaf G. Marles i'r YMOFYNYDD yn 1859, a'i brif lithiau ar ol hyny, Dadleuaeth 1860, Cofion a Chyffesiadau 1860-61, Haner awr gyda'r bardd o Bantycelyn 1863; cawn Evans, Gellionen yn bywgraffu Dr. Priestley yn 1860-61, a Lloyd, Cwmbach, yn gwneud yr un gymwynas â Theophilus Lindsay yn 1861, a'r brawd anwyl o Alltyplaca—Bydd fyw byth O frenin!—yn bywgraffu'r Parch. Timothy Davies yn ardderchog yn 1864—Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf o'i ysgrifau!! Ni wn i a sychodd yr inc arno'r pryd hwnw.

(I'w barhau). R.J.J.

* Bu farw Dr. Lloyd, Medi, 1863; John Jones, Rhagfyr, 1863; Titus Evans, Chwefror, 1864; John James, Medi 1864; O. Evans, Ionawr, 1865; J. E. Jones, Chwefror 1866.

* Petrel, math o aderyn a ymddengys fel "Petr" gynt yn rhodio'r môr ac a gyfrifir ei fod yn rhagfynegu yr ystorm.

CYFNOD GOLYGIAETH R.J.J. 1873-1887.

R. J. JONES, M.A.

Golygydd 1873-79; 1881-87.

Yn mhen dau cant ar bymtheg o flynyddau ar ol i ffrydiad dinystriol y mynydd o dân gladdu o'r golwg y dref henafol, cloddiwyd i grombil yr ysbwriel, a chafwyd, yn mhllth hynodion dyddorol eraill,

Gorff y Milwr

oedd wedi sefyll yn ffyddlon yn nghanol y cawodydd poethion, ac na fynai gilio rhag y perygl mwyaf. Mae ffyddlondeb y milwr wedi bod yn destyn cân a rhamant, ac ystyrir ef yn bortread cywir o deyrngarwch i ddyledswydd. Feallai ei fod, ond pan y meddyliaf am lenor neu olygydd Cymreig sydd wedi treulio ac ymdreulio yn y gwaith o gefnogi achos da, ond achos anmhoblogaidd, a hyny am flynyddau meithion, yn dawel yn aberthu ei gwsg, ei gysur a'i dda bydol, heb obaith am dâl na diolch, yn ei ymlyniad wrth achos sydd yn anwyl ganddo—nid wyf yn ystyried teyrngarwch y milwr yn eithriadol. Nis gwn am well engraifft o waith rhagorol yn cael ei gyflawni yn hollol ddidwrw, "nid fel am dâl, ond cariad rhodd," na gwaith hen olygwyr yr Ymofynydd. Mae haneswyr wedi anfarwoli William Lloyd-Garrison, pan y llogodd, yn nyddiau boreuaf yr ornest fythgofiadwy hono rhwng y Gogledd a'r De yn yr Unol Dalaethau, ystafell fechan lle y gosododd ei argraff-wasg, ac o ba le y danfonai allan ddarn o bapyr

Megys Cledr Llaw Gwr

yn cynwys ychydig frawddegau a gyhoeddent yn sicr awr olaf y gaethfasnach andwyol. Nid bychan oedd yr anair a dderbyniasai, ac nid calonog iawn oedd y croesaw a gafodd ei un ddalen o newyddiadur. Ond pwy fedr fesur ganlyniadau yr hyn a wnaeth Lloyd-Garrison. Pan ymgymerodd y Parch. R. J. Jones, M.A., a golygiaeth yr Ymofynydd yn y flwyddyn 1873, ni feddyliodd neb, ac ni feddyliodd efe ei hun am y dasc fawr oedd yn ei aros. Am luaws o resymau, yr oedd cylchrediad y misolyn wedi lleihau i'r fath raddau, fel mai o braidd y gellid disgwyl iddo dalu ei ffordd. Yn fuan trodd mwyafrif mawr yr addewidion teg am gefnogaeth lenyddol allan yn siomedig, a bu raid i'r Golygydd hebgor amser o ganol ei ddyledswyddau lluosog eraill i ysgrifenu ugeiniau o rifynau heb help o un cyfeiriad. Ychydig feddyliai y darllenwyr, pan yn eistedd gerllaw'r pentan ac yn darllen gyda blas yr erthyglau galluog a dyddorol a ymddangosent ar dudalenau y misolyn o fis i fis, sut oedd adnoddau bywyd goreu y Golygydd yn cael eu trethu wrth ysgrifenu yr erthyglau hyny, a'r dyn ieuainc yn cael ei wthio i henaint yn gynt na phryd. Yr oedd gwaeledd iechyd yn ei rwystro i'w gyflawni fel yr ewyllysiai. Wrth daflu golwg hamddenol yn ol dros rifynau y cyfnod y bu Mr. Jones

yn Olygydd, synir fi yn fawr gan

GYLCH EANG EI WYBODAETH

a'r amrywiaeth pynciau yr ymdriniai a hwynt. Llwyddodd i wneud yr YMOFYNYDD yn gyfrwng rhagorol i ddwyn i sylw ac i wneud yn boblogaidd y pynciau hyny ydynt erbyn heddyw yn tynu sylw cyffredinol ac yn cael eu derbyn fel y "dduwinyddiaeth newydd." Mae y deng mlynedd ar hugain diweddaf wedi gweled cyfnewidiad pwysig yn marn y werin parthed y cwestiynau y mae'r YMOFYNYDD wedi bod yn eu hattegu drwy ei oes. Mae deddf fawr dadblygiad, erbyn heddyw, yn peru i'w dylanwad gael ei deimlo yn myd duwinyddiaeth. Daw pob gwirionedd i fewn i'w thiriogaeth. Mae gwirionedd o hyd megys cefnfor llydan, a'r llanw yn ymgodi yn araf ond yn sicr, ac y mae duwinyddiaeth yn dyfod i afael y llanw hwn. Rhyfedd mor geidwadol mae Cymru wedi bod yn ei duwinyddiaeth drwy yr oesau. Yn ein hysgolion mae y llyfrau a ystyrid yn awdurdod ar wahanol bynciau efrydiaeth ddeng mlynedd yn ol, wedi eu gordyfu er's llawer dydd. Gwneir darganfyddiadau newyddion yn barhaus yn mhob cangen o wybodaeth. *There is no finality*—nid oes yr un man terfynol mewn gwybodaeth, pan y gellir dweyd, "Hyd yma yr ei, a dim yn mhellach." Ond hyd yn ddiweddar ymddangosai y byd crefyddol yn fyd nad oedd yr un gronyn o gynydd yn perthyn iddo. Yr oedd duwinyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn debyg, ar lawer ystyr, i dduwinyddiaeth un o'r cyfnodau pellenig yn nadblygiad yr hen ddaear. A phe y ceid ymgom ag ambell i

DAD PARCHEDIG YN YR EGLWYS,

gallech dybio eich bod yn ymddiddan a rhyw offeiriad moel ei goryn o lys Charlemagne neu o rhyw gyfnod henach fyth. Yn araf mae Cymru wedi bod yn ymsymud yn y cyfeiriad hwn. Er gwaethaf ei harafwch nis gallai fogi yr yspryd ymchwilgar hwn sydd yn nodweddiadol o'r oes—yr awydd angerddol hwn i ddeall Cristionogaeth yn well, ac i gael goleuni tanbeitiach ar bynciau mawrion y dydd. "*An imperial theology cannot permanently remain unmodified in a democratic society*," meddai ysgrifenydd enwog. Mae y cyfnewidiad wedi dod. Mae yr holl fyd crefyddol mewn gwewyr. Mae

CNUL TRANC YR HEN GREDOAU

wedi ei seinio, mae gwawr dydd syniadau newyddion, gwell ac uwch, am Dduw a dyn, wedi tori, ac yr ydym ninau yn sefyll ar drothwy cyfnod pwysig yn nadblygiad meddwl y werin. O holl brophwydi y dyddiau diweddaf hyn nis gwn am un sydd wedi tremio i'r dyfodol â llygaid mwy miniog, nac wedi craffu yn fwy manwl ar arwyddion yr amserau, nac un sydd wedi bod yn fwy cyson ar uchel-dwr gwyliadwriaeth, bob amser yn ufudd i'r weledigaeth nefol, ac yn barod i gyhoeddi blaen gwawr y gobaith eangach, na Golygydd yr YMOFYNYDD yn ystod y tymhor yr wyf fi yn ymdrin ag ef. Ar hyd ei oes faith mae wedi bod yn fyfyriwr yn ystyr ardderchocaf y gair, yn efrydu y llyfrau goreu, ac am haner can' mlynedd mae wedi bod yn hulio ffrwyth ei efrydiaethau yn y modd mwyaf darllenadwy gerbron darllenwyr yr YMOFYNYDD, ac yn wir, ar dudalenau lliaws mawr o gyfnodolion eraill. Nid yw yn fy mwriad i adolygu cynwysiad yr YMOFYNYDD yn ystod tymhor golygiaeth Mr. Jones. Nid oes neb ar ei oreu pan yn ysgrifenu yn "erbyn amser" wrth arch y cysodydd—hyn a hyn o erthyglau i fod yn barod erbyn hyn a hyn o'r gloch. Dyna dynged golygydd, fynychaf, a dyna oedd tynged Mr. Jones. Ond os na cheir ei oreu yn mhob erthygl ysgrifenodd, mae yr YMOFYNYDD o dan ei olygiaeth yn rhoddi i ni agweddau goreu Undodiaeth yn Nghymru, ac ynddo fe ga hanesydd y dyfodol adnoddau cyfoethog a roddant iddo drem ar

fywyd uwchaf yr enwad. Yn nglyn a helynt adfydus

Y Troad Allan yn Llwynrhydowen,

yr hwn a ddibenodd mor dorcalonus yn marwolaeth yr athrylith penigamp Gwilym Marles, nis gwn am un benod mor drist-ddyddorol a'r un a geir yn y rhifyn coffadwriaethol o'r Ymofynydd, yr hwn a rydd holl fanylion gresynus yr erlidigaeth chwerw hono, ac nis gwn am hanesydd mwy cymwys i ysgrifenu y benod na Golygydd yr Ymofynydd ar y pryd. Yn bendifaddeu, efe yw hanesydd yr enwad yn Nghymru, ac

J. HATHREN DAVIES. Golgyydd 1888-1900.

heb lofn y gwnaf trwy hyny redeg i eithafion gormodiaeth, beiddiaf ddweyd hyn, fel profiad un sydd wedi bod yn gymydog agos iddo am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac wedi derbyn cymwynasau fil oddiar ei law—pan y sudda haul bywyd Mr. Jones tuhwnt i'r gorwel, a phan y gorfydd arno roddi ei ysgrifell brysur o'r naill ochr, bydd un o gymeriadau prydferthaf yr enwad Undodaidd yn Nghymru wedi cilio, a bydd Undodiaeth yn dlottach o un, "take him all in all, we shall never look upon his like again."

Cefn. J. Hathren Davies.

YR YMOFYNYDD YN DRIUGAIN OED.

Wyt dri'gain oed, fy ffrynd,
Ond nid yw'th wallt yn gwynu ;
Mae llawer wedi myn'd
Er pan cest ti dy eni ;
Tydi wrth dyfu'n hen,
Blodeui mewn ieuenctyd ;
Wyt heddyw'n gwisgo gwên
A hoender harddwch bywyd.

'R oedd Medi yn y coed
Pan gefaist ti dy eni :
Daeth hirnos yn ddioed
Tra ti yn hau goleuni ;
Dan dderw'r gauaf oer
Y cest dy dyner fagu,
Tra'r dduwinyddol loer
Yn dringo wybren Cymru.

Bu dewrion dysg eu dydd
Mewn gofal dwys am danat,
Llifeiriai gwawl eu ffydd
Fel afon loew atat :
Gofalent fod dy wedd
Gan obaith yn tywynu,
Ailwyent iti wledd
Oedd wledd i enaid Cymru.

D. EVANS. Cyd-olygydd 1901-3.

Bu gauaf dyblyg, do
Yn curo ar dy drothwy ;
Ac ar dy lanwawr fro
Taranai blin ryferthwy ;
Mor arw iti fu
Ystormydd duwinyddiaeth ;
Bu eu beiddgarol gri
Am ddryllio dy fodolaeth.

Ond tyfu wnaethost ti
Trwy'r dymhestl arw, arw,
A gwynu wnaeth dy fri
Trwy nos y ddrycin chwerw ;
Daeth hafddydd gwell i'r coed,
A daeth gorfoledd newydd ;
Wyt heddyw'n dri'gain oed—
O ! fwynaidd YMOFYNYDD.

Wyt iach, wyt gryf dy wedd,
A gwanwyn-wisg am danat ;
Ac nid oes awgrym bedd
Nac angeu'n unman arnat ;
Ond harddwch bywyd llawn
Sydd drosot yn blodeuo ;
Ac anadl bywyd gawn
O'th galon yn gwefreiddio.

Pob mis y deui'n wir,
A'th nen yn arian gymyl ;
A'th gerdd fel Teifi glir
Sy'n lloni haf Llandyssul ;
Gwasgeri di dy aur
Dros Aberteifi'n amlwg ;
A hêd dy wawrddydd glaer
Dros fryniau glo Morganwg.



W. JAMES, B.A., Y.H. Cyd-olygydd 1903-7.

'R wy'n cofio'r blwyddi fu
Pan own yn ieuanc hogyn,
Pan yn dy gwmni di
Yn darllen aur belydryn ;

Amharod oeddwn i
I gredu'th air pryd hwnw ;
'R oedd rhywbeth yn dy gri
Yn gwneud fy mron yn chwerw.

Dest eilwaith at fy nrws,
A d'wedaist im' dy neges :
Ac O ! mor lân, mor dlws
Oedd lili wen dy fynwes ;
'R oedd ar ei harian ddail
Esboniad ar y nifwl ;
Ac ar ei bron liw'r haul
'R oedd toriad dydd i'm meddwl.

Bum yn ei chwmni, do
A gwelais hi yn gwynu,
Arosais lawer tro
I edrych arni'n gwenu ;
Ces yn ei gwynder wledd,
Ces yn y wledd oleuni,
Ces ystyr cryd a bedd
Yr Iesu yn y lili.

O ! derbyn gyfaill glân
Fy niolch am dy olau ;
O ! derbyn nodau'm cân
Am wasgar im' dy berlau ;
Diolchaf iti 'n awr
Am dy genhadaeth loew ;
Pan af i'r loewaf wawr
Diolchaf fwy bryd hwnw.

T. ARTHUR THOMAS. Cyd-olygydd er 1901.

Nid ydyw'r *dydd* yn llawn
Hyd eto yn fy meddiant ;
Mae dawn yn canlyn dawn
Yn gwynu i'r gogoniant ;
Ond diolch am y wawr
Sy'n gloewi bannaw'm meddwl !
Caf weledigaeth fawr
I'an ddryllia'r olaf gwmwl.

'R wy'n teimlo fod y nos
Yn dianc o'r mynyddau ;
Rhaid fod golygfa dlos
Tuhwnt i'r cul-gredoau ;
Mae'n rhaid fod Gwir fy Nuw
Yn fwy na'r llynoedd dynol ;
Mae'n rhaid i'm henaid byw
Gael mwy na chred Babyddol.

Dos yn dy flaen, fy mrawd,
Tydi fu'n dod im' unwaith,
Ond heddyw ar fy rhawd
Wyt imi yn gydymaith ;
Dos yn dy flaen mewn ffydd
At foroedd dy lawenydd ;
Wrth fyn'd at "loewach dydd"
Bydd byth yn YMOFYNYDD.

O ! cura ddorau Ior
Nes yr agorant iti ;
A moria dònau'i fôr
At Ganaan y Goleuni ;
Paid blino holi, paid,
Mae'r llwybrau yn dragwyddol,
Cei ddydd o hyd o'th blaid
Ar Alpau yr Anfeidrol.

T. J. THOMAS, B.Sc. (Carnicol),
Golygydd y Farddoniaeth er 1901.

Dos eto yn dy flaen
Hyd lethrau ysprydoliaeth ;
Mae'r cwmwl aur ar daen
Yn wybren duwinyddiaeth ;
Fe gerdda'r oes yn drwm
Trwy gaddug y credoau ;
Cyn hir fe dry bob cwm
Yn flodau gan feddyliau.

Mae'th Ser yn llosgi'n wyn
Trwy'r ofergoelus gymyl ;
Mae'r athrawiaethol fryn
Dan wanwyn yn yr ymyl ;
Dos rhagot Fab y dydd
I lenyrch bythol cariad ;
Cawn Synwyr, Gras a Ffydd
Ar uchelderau Profiad.

ALVA.

ACHOS Y MYFYRWYR.

Clywaf yn fynych yr achwyniad fod ein pregethwyr ieuainc, ac yn enwedig y rhai galluocaf o honynt, yn cefnu ar fryniau llwydion Ceredigion a chymydd myglyd Morganwg, gan droi eu gwynebau tua brasdir gwlad y Saeson. Nid wyf am amheu cywirdeb y cyhuddiad, ond credaf y priodolir y rhesymau am hyn yn fynych i rywbeth nad oes ganddo ddim o gwbl i wneud â'r achos. Dywedir eu bod yn awyddus am wneud llai o waith a chael cyflogau mwy, neu eu bod yn credu y cânt well triniaeth ac y telir fwy o barch i'w personau. Hawdd fuasai crybwyll llawer o bethau eraill i'r un perwyl, ond bydd hynyna yn ddigon er dangos beth wyf yn olygu. Am y credaf fod y gosodiadau yn anghywir, mae'n ddyledswydd arnaf geisio egluro beth yw y wir sefyllfa. Credaf ei bod yn hysbys i lawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fod ar hyn o bryd tua haner dwsin o fyfyrwyr a'u bwriad ar y weinidogaeth Undodaidd yn treulio eu gwyliau yn Nghymru, rhai o honynt yn Ngheredigion, un yn Nghaerfyrddin, a'r lleill yn Morganwg. Bydd un neu ddau yn gorphen eu gyrfa golegawl cyn pen blwyddyn o amser, a'r oll heb fod yn faith iawn ar ol hyny. Felly chwi welwch mor bwysig yw iddynt ddyfod yn gynefin â rhyw eglwysi neu gilydd. Canys heblaw ei bod yn orchwyl dlflas i oedi yn hir heb alwad, gorphwysa'r angenrheidrwydd arnom ni, yn union fel pobl eraill, i edrych am ein bara beunyddiol, yr hwn ni ddaw ond yn unig drwy lafur ein dwylaw, o herwydd mor bell ag y gwn i nid oes gan yr un o honom ddigon o gyfoeth i fodoli yn hir heb weithio. Eto, yn ngwyneb y ffaith hon, nid wyf wedi clywed ond am ddwy neu dair o eglwysi drwy yr oll o Gymru sydd wedi talu yr un sylw i'r crwydriaid efengylaidd ydynt yn gorfod breuddwydio eu hamser gwerthfawr i ffwrdd uwchben y llyfr hwn neu arall ar yr aelwyd gartref,ac un o leiaf o'r eglwysi hyny yn analluog i roddi dim iddynt am eu gwasanaeth oddigerth ychydig dreuliau. Tybiaf y gwnai yr Apostol Paul ei hun, er ei holl brofedigaethau, wneud ymffrost o wrhydri o'r fath.

Beth yw y canlyniad naturiol? Ant yn ol i Loegr i dreulio y rhan fwyaf o'u gwyliau, lle mae yn eu haros ddigon o waith a chydnabyddiaeth am dano. Arweinia hyn hwy yn raddol i hoffi y wlad a'r bobl, ac yn y diwedd i ymsefydlu yn eu plith heb fyth obaith am eu cael yn ol i wlad eu genedigaeth. Peidier a bod yn rhy barod i'w beio, oherwydd ni wna eglwysi na gweinidogion Cymru —ac eithrio un neu ddau — yr un ymdrech i'w cadw rhag myned i ffwrdd. Awgrymwyd deddf fawr dysgyrchiad i Newton gan afal yn syrthio oddiar y pren i'r ddaear. Yr oedd miloedd o afalau wedi disgyn yn flaenorol, ond nid oedd neb wedi meddwl am y ddeddf orweddai o dan eu symudiadau. Bron yr un fath ar radd o lai awgrymwyd yr erthygl hon i mi gan engraifft o'r gamdriniaeth grybwylledig a ddaeth i'm sylw yn ddiweddar. Fel y gwyddis, gwna y pregethwyr Cymreig ydynt a phwlpudau ganddynt yn Lloegr, dalu ymweliad o dro i dro â'r wlad hon am ychydig wythnosau yn yr haf er mwyn adferyd eu hiechyd neu rywbeth cyffelyb ; a pheth cyffredin yw iddynt ar y fath achlysur ysgrifeuu at yr eglwysi goreu am le i bregethu ar y Suliau er mwyn cael arian i dalu eu treuliau. Nid yn unig y mae hyn yn anghyfiawnder â phwlpudau eu hunain, ond y maent hefyd yn yspeilio'r myfyrwyr o'r unig fanteision sydd ganddynt i ddyfod i gyffyrddiad â'r gwahanol gynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad. Tua blwyddyn yn ol aeth un o'n pregethwyr ieuainc mwyaf gobeithiol i Loegr oherwydd

na chafodd ddigon o groesaw i aros yn ei wlad ei hun. Ar ol bod i ffwrdd am ychydig amser daw yn ol ar dro, a cha wahoddiad i bregethu yn yr eglwys oreu sydd genym yn Nghymru, a hyny pan y mae mwy na haner y myfyrwyr gartref heb ddim i'w wneud. A synwn i fawr na fydd gweinidog yr eglwys dan sylw yn cael ei alw cyn hir—canys efe yn unig gallwn feddwl sydd yn gymhwys at y cyfryw orchwylion—i ddarllen papyr yn un o'n cyfarfodydd chwarterol neu flynyddol ar ryw destyn fydd yn ymwneud â chyflenwad y pwlpudau Undodaidd yn Nghymru. Rhag ofn gwneud anghyfiawnder âg ef, ni wnaf son dim am yr hyn fydd cynwys ei draethawd yn debyg o fod, er y tybiaf na fydd yn cydfyned â'r olwg yr wyf fi wedi gymeryd. Ond pa olwg bynag gymer, anturiaf brophwydo y bydd i'r ffeithiau aros yr un. Gan nad wyf wedi cyrhaedd oedran aeddfed iawn, nid wyf mewn sefyllfa i dynu cymhariaethau rhwng y presenol a'r gorphenol pell yn ol, ond gallwn feddwl na fu yr un cyfnod o'r blaen pan yr oedd cymaint o fyfyrwyr addawol genym yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth, ac eto ar yr un pryd nid oes genym le iddynt roddi eu penau i lawr. Pan ddelo y pwlpudau yn weigion, fe fydd y llanw wedi cilio a ninau heb fanteisio arno. Na fydded i'r hen weinidogion parchus feddwl fy mod am eu gwared allan o amser, ond nis gallaf yn fy myw lai na meddwl fod yna gryn lawer o anealltwriaeth yn bodoli rywle neu gilydd.

Nid yw y sefyllfa yn peri blinder mawr i mi fy hun, am y credaf yn gydwybodol fod y weinidogaeth Undodaidd, yn ogystal a gweinidogaeth pob enwad arall, wedi gwyro i raddau helaeth o'r llwybr yr amcanodd Iesu iddi rodio ar hyd-ddo, ac felly wedi methu cynyrchu'r ffrwyth y disgwylid iddi wneuthur. Credaf fod golygydd yr 'Hibbert Journal' yn eithaf iawn pan y dywed fod mwy o waith Iesu yn cael ei wneud y tu allan na thu fewn i'r eglwysi; ac i un fedr edrych ar y cwestiwn yn y ffordd hon, y mae pwlpudau yn cynyg eu hunain iddo pa le bynag y mae cyfleusdra i wneud daioni. Credaf, er hyny, mai yr eglwys ddylai fod y man mwyaf cyfaddas i weithio yn achos dyn a Duw; ond os bydd rhwystrau ar ein ffordd i gyflawni ein dyledswyddau yno, ceir digon o le allan yn y byd. Nid siarad am hyn oedd fy amcan wrth gychwyn, ond gosod achos y myfyrwyr o flaen y cyhoedd mewn goleuni cywir a diragfarn, a hyny nid yn unig er cyfiawnhau ein hymddygiad, ond hefyd os yn bosibl er ceisio deffro yr holl enwad i sylweddoli pa mor fawr yw y ddyledswydd sydd yn gorphwys arnynt i weinyddu y driniaeth iawn i'r rhai sydd wedi aberthu rhywfaint a dioddef llawer er mwyn cyrhaedd y safle briodol o ba un y medrant fod o wasanaeth i bawb yn mhob man.

IOAN Y MYFYRIWR.

Fel y canlyn y cyhoeddwyd Yr Ymofynydd, a'r rhai enwir isod ydynt ei Olygwyr o'r dechreu:—

Medi, 1847 hyd Ebrill, 1854—John Edward Jones.
Ionawr, 1859 hyd Meh., 1865—John Edward Jones.
Ionawr, 1868 hyd Rhag., 1872—D. L. Evans.
Mawrth, 1873 hyd Chwef., 1879—R. J. Jones.
Medi, 1881 hyd Rhagfyr, 1887—R. J. Jones.
Ionawr, 1888 hyd Rhag., 1900—J. H. Davies.
Ionawr, 1901 hyd Medi, 1903—D. Evans, Arthur Thomas a Sarnicol.
Hydref, 1903 hyd Gor. 1907—W. James, Arthur Thomas a Sarnicol.
Awst, 1907 — —Arthur Thomas a Sarnicol.

Cyhoeddwyd "Yr Athraw" gan Gwilym Marles o Medi, 1865 hyd Awst, 1867.

CONGL YR AWEN.

COLLI MAM.

Colli mam, er byw yn hen,
Sydd yn brofiad
Newydd imi yn y byd,
Fel amddifad ;
Myn'd am dro i'w gweled hi
Ni bydd mwyach,
I gael eistedd gylch y tân
Mewn cyfeillach.

Yn ei blwyddi olaf hi,
Byddai'n enwi
Llu o'r hen gyfeillion oedd
Wedi'u claddu ;
Byddaf finau, cyn bo hir,
Yn cyd huno,
Yn y fynwent, lle ni ddaw
Dim i'm blino.

Codi'n foreu, dàl hyd hwyr,
Trwy ei gyrfa ;
Nid oedd yn ei natur hi
I segura ;
Gwnaeth a allodd, do, i ni,
Gyda phleser,
Yn ei henaint, parod oedd
Mewn cyfyngder.

Er heb fedri darllen gair,
Na 'sgrifenu,
Dweyd y gwir, a charu'r iawn
A wnaeth ddysgu ;
Aeth yn ffyddiog drwy ei hoes,
I dŷ gweddi,
I gyd uno yn y gwaith
O addoli.

Pedwar ugain mlwydd o oes,
Sydd yn ddigon,
I ddwyn beichiau trymion croes,
I bob Cristion ;
Os caiff nerth i fyw hyd hyn,
Bydd yn teimlo,
Fel y gweithiwr yn yr hwyr,—
Wedi blino.

Mwyach, y mae genyf fi,
I ddymuno
Parch i'w henw, hedd i'w llwch,
Yn hir fyddo ;
Minau wyf o flwydd i flwydd,
Yn heneiddio,
A'r pren Almon heddyw sydd
Yn blodeuo.

Minau ddof i ben y daith,
Bob yn ronyn,
Yn y bedd mae llawer oedd
Yn cyd-gychwyn ;
Trwy y daith yn hyn o fyd,
Hyn a geisiaf,—
Parchu deddfau gwynion gras
Y Goruchaf.

Trebanos. DAVID W. DAVIES.

ENGLYNION.

Er cof am Mrs. Jenkins, Mynach Villa, Cribyn.

'E gadd un go ddaionus—ei syflyd
O'i safle gysurus ;
Oedd fenyw gall, ddeallus ;
Chwiliai'r grawn, nid cawn ac ŭs.

Bu'n gadarn heb un geudeb;—ni char-
Llechwrus *ddau wyneb ;* [iai'n
Ond yfai win Doethineb ;
Ofnai Naf yn fwy na neb.

Trwy'i hoes hir y gwir garodd,—yn ei
Yn dawel gobeithiodd ; [Duw
I'w dŷ yr ai â'i da rodd ;
Ar ei sêl llawer sylwodd.

Mae chwithdod hynod heno,—a hir-
O herwydd ei phriddo ; [aeth,
Bu i'r gwan yn darian, do,
A chyfiawn yw ei chofio.

DEWI HEFIN.

PRIODASAU.

AWST 5, yn yr Hen Dŷ Cwrdd, y gweinidog yn gwasanaethu, Mr. David Jones â Miss Anastasia Roberts, y ddau o Aberdar.

Grant them, O Lord, the joy that brightens sorrow,
Grant them the peace which calms all earthly strife ;
And to life's day the glorious unknown morrow
That dawns upon eternal love and life.

AWST 23, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R.C. Jones, Mr. William Edwards, Cwmcanol, Pencarreg â Miss Eleanor Davies, Castell, Capel Bettws.

MARWOFION.

AWST 1, yn 81 oed, Thomas Evans, Camden House, Capel Dewi, Llandyssul, ar ol cystudd hir a phoenus. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Bethel, capel y Wesleyaid, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Treuliodd ein cyfaill dros ugain mlynedd o'i oes yn Llundain, wedi hyny bu'n byw yn Glanbran, ger Llanymddyfri, ond ers rhai blynyddoedd yr oedd yn cydfyw a'i chwaer yn y lle uchod. Gadawa ddwy chwaer oedranus i alaru ar ei ol, a gwel cylch helaeth o gyfeillion ei eisiau yn fawr.

AWST 5, bu farw Mary, anwyl briod Mr. Evan Williams, Red Lion, Cwrtnewydd. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Mercher canlynol. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. E. Phillips, Sïon.

AWST 12, yn 30 oed, Tom Tyssul, mab y diweddar Mr. John Jones, Cyfreithiwr, a Mrs. Jones, Gellifaharen, Llandyssul. Un o gyfansoddiad gwanaidd oedd yr ymadawedig erioed, yn gymaint felly fel y bu yn orfodiaeth arno i adael yr ysgol yn Llanymddyfri er aros gartref i geisio sugno nerth ac iechyd oddiar y fferm a chael tynerwch mam i ofalu am dano. Yr oedd yn amlwg ers dwy flynedd i'r rhai a'i hadnabyddent oreu fod y babell yn dechreu malurio gan fod arwyddion o wendid yn dod yn amlycach bob dydd, ond er fod y corff yn pallu daliai ei yspryd yn fyw a nwyfus. Dechreuodd ei gystudd olaf yn gynar yn Chwefror diweddaf ac am dros haner blwyddyn bu'n gaeth i'w ystafell a'i wely. Yn ystod yr amser yna cafodd bobpeth fedrai cariad mam a chwiorydd wneuthur, a dangosodd ynte amynedd ac addfwynder neillduol, ac er yn ddiambheu y gwyddai nad oedd gwellhad yn ei aros daliodd bron hyd y diwedd i guddio ei deimladau rhag y teulu. Y dydd uchod ehedodd ei yspryd at Dduw. Hoffwn linellau Shelley :—

"Peace here ! he is not dead, he doth not sleep
He hath awakened from the dream of life."

Yr oedd Tom yn hynod barchus a phoblogaidd ac mae yna gylch helaeth o gyfeillion yn galaru ar ei ol. Dygai maintioli ei angladd a lluosogrwydd

y plethdorchau ddanfonwyd dystiolaeth o hyn. Bu am dair blynedd yn aelod ar Fwrdd y Gwarcheidwaid C.N. Emlyn. Bu yn Gadeirydd Cymdeithas Gydweithredol Amaethwyr Llandyssul a Phwyllgor Arddangosfa Amaethyddol Dyffryn Clettwr. Gosododd y pwyllgor yma blethdorch hardd ar ei fedd. Claddwyd y lau canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gwelwyd y Parchn. T. A. Thomas, E. E. Jenkins, T. Jones, Ficer Penboyr ac amryw offeiriaid ereill yn yr angladd. Bydded i'r fam, y brawd a'r ddwy chwaer i ddiddanu ei gilydd ag addewidion Duw gan gredu yn ei gariad ef.

AWST 13, yn 57 oed, Margaret Rees, Cambrian House, Llandyssul. Claddwyd y dydd lau canlynol yn Pantdefaid. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. A. G. Howell, Curad, — Griffiths, (W.), a'r gweinidog. Gadawodd briod ac un ferch mewn galar.

AWST 20, yn 7 mis oed, Sarah, merch fechan Catherine Jones, Pontbren, Tregroes. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

MANION AC HANESION.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol yr Hydref yn Ngellionen a Threbanos, dyddiau Mercher ac Iau, Hydref 30 a 31. Y pregethwr apwyntiedig ydyw y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin. Mae y gweinidog a'r eglwysi yn rhoddi y croesaw gwresocaf i gyfarfodydd y Gymdeithas ac hyderant y gwnaiff yr holl weinidogion a chynrychiolaeth dda o'r eglwysi ymdrech i fod yn bresenol. —*T.A.T., Ysg.*

CRIBYN.—Dydd Mawrth, y 6ed o Awst, cafodd plant yr Ysgol Sul wledd o dê gan Mr. a Mrs. Thomas, Old Shop. Cynhaliwyd y wledd yn ymyl Caer Maesmynach. Daeth nifer luosog o blant ac o rai mewn oed yn nghyd i fwynhau y danteithion oedd wedi ei darparu. Ar ol yfed y tê, treuliwyd amryw oriau mewn chwareuaethau o wahanol fathau; ac ar y terfyn, teimlad pob un oedd ein bod wedi cael gwledd ragorol iawn.

CAPELYGROES A LLWYNRHYDOWEN.—Sul, Gorphenaf 28, cynhaliwyd Cymanfa Bregethu myfyrwyr yn y lleoedd uchod, pryd y gwasanaethwyd gan Mri. S. Evans Bowen, John Davies, a James G. Davies, o Goleg yr Home Missionary, Manceinion. Cafwyd pedair pregeth yn mhob capel, ac yr oedd y pregethau yn dda a'r traddodiad yn hapus a grymus. Dymunwn bob llwyddiant i'r bechgyn yn y gwaith o barotoi ar gyfer y weinidogaeth a gobeithiwn y gwelant eu ffordd yn glir i ddod yn ol i wasanaethu ein heglwysi Cymreig. Tra mae rhai o'n hen weinidogion yn myn'd ar eu hoedran fel nas gellir disgwyl arnynt i wasanaethu yn hir eto mae'n hyfryd i feddwl fod yna lu o ddynion ieuainc yn parotoi eu hunain i gymeryd eu lle. Cymanfa ragorol oedd yr uchod yn mhob ystyr. Cafwyd cynulliadau rhagorol, ac yr oedd llawer o gyfeillion Iawnffyddol yn bresenol—a phawb mewn hwyl. Mor bell ag y gwyddom dyma y gymanfa gyntaf o'r natur yma sydd wedi ei chynal yn mhlith Undodiaid Cymru ond hyderwn na fydd yr olaf. Carwn anog ein heglwysi i roi

gwahoddiad i'r gymanfa, ac yn sicr ni chant eu siomi. Byddai cymanfa yn sicr o fod yn help i'n heglwysi ac yn anogaeth i'r myfyrwyr — ofnwn weithiau nad ydym yn gwneud digon o'n myfyrwyr. Os carai ryw eglwys neu chwaer eglwys gael cymanfa yr Haf nesaf neu ryw Haf dilynol, bydded iddynt ohebu yn uniongyrchol â'r myfyrwyr neu â'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, Llandyssul. Fel yr hysbyswyd yn y Rhifyn diweddaf bu eglwys Capelyfadfa mor ffortunus a chlirio y ddyled oedd ar y capel newydd erbyn y Sul yna. Costiodd ychydig dros £1200 heblaw cludiad y nwyddau. Mae yr eglwys yn ddiolchgar iawn am bob cynorthwy dderbyniodd. Bwriedir cyhoeddi mantolen mor fuan ag sydd bosibl.

ABERYSTWYTH. — Ar y 4ydd o Awst pregethwyd yn y boreu a'r hwyr gan y Parch. E. O. Jenkins i gynulleidfa luosog—y rhan fwyaf o honynt yn ddieithriaid gan fod llawer o'r aelodau ar grwydr ac ereill yn brysur wrth y gwaith o barotoi ar gyfer anghenion corfforol y miloedd ymwelwyr â'r dref. I un sydd yn cofio am gychwyniad yr achos ymddengys yr arwyddion yn wir obeithiol. Yn lle rhyw ddwsin neu lai yn ymgynull mewn bwthyn bychan, diaddurn, a rheiny yn agored i bob drygair a dirmyg gwelir erbyn heddyw gynulleidfa luosog yn eistedd yn gysurus mewn adeilad os nad helaeth iawn ei faintioli eto dymunol i'r olwg a phwrpasol at y gwaith. Y mae'r llwyddiant hwn yn ddyledus nid i fanteision neillduol na neges wahanol i'r hyn a bregethir mewn eglwysi Undodaidd eraill ond yn hytrach i'r ffyddlondeb a'r brwdfrydedd a amlygir ar rhan y rhai a fynychant y lle. Bydded i'r wers gael ei hystyried gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Mae'n bosibl nad yw llawer o honom wedi dysgu gwerth y fraint o gael man i addoli Duw yn rhydd o lyffetheiriau cred. Cyflawna yr eglwys yn Aberystwyth rai dyledswyddau ydynt wedi cael eu hesgeuluso er yn foreu iawn yn hanes y grefydd Gristionogol. Ymgymerant â'r gwaith o chwilio am lety i'r ymwelwyr. Peth cyffredin eto yw gweled un o'r aelodau yn codi ar ei draed ar ol y gwasanaeth ar nos Sul er rhoddi gair o dderbyniad a chyfarwyddyd i'r dieithriaid. Os nad yw pethau o'r fath yn ran o Gristionogaeth ofer yw dweyd ei bod wedi ei seilio ar egwyddorion y Testament Newydd. Dymunol hefyd yw gweled y dyddordeb gymer ein myfyrwyr yn y symudiad. Yn ychwanegol at Mr. Jenkins gwelir ar y rhaglen fel pregethwyr am mis Awst enwau Mri. Watkins, S. E. Bowen, James Davies, John Davies, Aberdar. Gwn am o leiaf un arall garai fyned yno onibae fod yr holl Suliau wedi eu llanw. Ar y 3ydd Sul yn mis Medi pregethir ddwy waith gan y Parch. W. J. Pond, Whitchurch, yr hwn sydd yn dyfod ar ei gais arbenig ei hun. Yn sicr nis gellir dwyn yn erbyn y gynulleidfa y cyhuddiad ddygid unwaith yn erbyn yr eglwys yn Laodicea.

TREBANOS.—Nos Fercher, Awst 7fed, pregethwyd yn nghapel y Graig gan y Parch. Cynfelyn Benjamin. Cafwyd oedfa lawn, a Chynfelyn yn ei hwyliau goreu. Gwerthodd y bardd hefyd rai degau o "Odlau'r Awelon" ei lyfr olaf. Canodd Alva fel y canlyn ar ol y bregeth :—

Wele gawr, hael ei goryn—a'i bregeth
Fel boreugwyn gwanwyn ;
Ddiail gâr ! O feddwl gwyn—
Canaf hwyliau Cynfelyn.

Athraw heulog athrylith—a'i awen
Mor ieuanc a'r gwenith ;
Swyn ei fwynder sy'n fendith
Er lles gwlad mae'n arllwys gwlith

Dialar fab y delyn,—haf rodiwr
Rhyddfrydig, diwenwyn ;
Byw yn y gerdd a'i ben gwyn
Yw cain folawd Cynfelyn.

"Hyn a ddywedaf : yn gymaint a bod yr Hollalluog wedi rhoddi i bob dyn un genau i'w borthi, ac un pâr o ddwylaw i sicrhau'r un ymborth i'r genau hwnw. Os oes rhywbeth y

gellir ei brofi yn ewyllys y nefoedd, fe brofir drwy'r ffaith hon, fod y genau hwnw i gael ei borthi gan y dwylaw hyny, heb ymyraeth gan un dyn arall sydd a genau ganddo hefyd a dwylaw i lafurio. Credaf, pe darfu i'r Hollalluog erioed greu un set o ddynion i wneuthur y bwyta i gyd a dim o'r gwaith, buasai wedi eu creu gyda dim ond genau, heb ddwylaw; a phe buasai wedi creu dosparth arall i wneuthur y gwaith i gyd a dim o'r bwyta, buasai wedi eu creu heb eneuau, ond â dwylaw i gyd.—*Abraham Lincoln.*

GWERSI AR GENESIS.—Bwriadwn gyhoeddi o fis i fis Wersi wedi eu parotoi mewn dull poblogaidd ar Genesis. Y mae dau o'n pobl ieuainc mwyaf addawol yn ymgymeryd â'r gwaith—y Parchn. J. Islan Jones, B.A. a J. Park Davies, B.A., B.D. Y mae'r ddau yn hollol gynefin â'r gwaith a gosodant ger ein bron ffrwyth beirniadaeth ddiweddar.

GWELLIANT GWALL.—Yn y Rhifyn diweddaf tud. 180, 5ed llinell, yn lle "Keble" darllener "Tennyson."

LLWYDDIANT.—Da genym gronicio llwyddiant y brawd J. D. Jones, B.A. ar ei waith yn graddio gydag anrhydedd yn Mhrifysgol Rhydychen. Eiddunwn iddo eto lwyddiant mawr yn ei gwrs duwinyddol.

PENBONTAROGWR.—Cadeirydd y Parch. R. J. Campbell yn y lle uchod oedd y Parch. D. G. Rees.

NEW ZEALAND.—Dagenym ddeall oddiwrth ein cylchgronau Saesneg fod llwyddiant yn parhau i ddilyn ymdrechion ein cyfaill Dr. Tudor Jones a'i briod serchog. Ewch rhagoch gyfeillion, a phan alloch hebgor munyd o amser gobeithio y ca'r YMOFYNYDD air oddiwrthych.

Derbyniwyd y mis diweddaf at ddileu dyled Pentre Rhondda fel y canlyn:—Evan Lloyd, Tyngruganol, 3s.; D. Davies, P.O., Felinfach, 2s.6c.; Joshua Jones, Penbanc, eto, 2s. 6c.; D. Jones, Rhydyfene, 2s. Bydd y Golygwyr yn falch i gydnabod unrhyw rodd ychwanegol.

LLANDYSSUL. — Awst yr 28ain cynhaliodd Ysgol Sul y Graig *picnic* ar ddol y Porth Hotel ar lan y Teifi. Daeth y plant yno yn gryno yn nghyd â charwyr yr achos. Yr oedd y tywydd yn bobpeth ellid ddymuno, y trefniadau yn rhagorol, pawb yn eu hwyliau goreu a'r lle fel pe wedi ei ddarparu yn arbenig at y cyfryw bwrpas. Bu y plant yn difyru eu hunain mewn rhedegfeydd a chlywsom i bob un gael gwobr. Ymdrechwch redeg rhedegfa o natur arall eto, a chaiff pawb ei wobr ei hun. Ar y diwedd siaradodd amryw gyfeillion, ac anogwyd pawb i gael mwy o ffyddlondeb. Talwyd diolchiadau cynhes i'r rhai fu'n gweithio, ac ymwahanwyd ar ol treulio dydd dedwydd a llawen gyda'r plant.

Y GOLYGYDD YN AMERICA.—Bwriada gychwyn ar fwrdd yr *Ivernia* yn nghwmni y Parch. E. Gwilym Evans, Mr. L. N. Williams, Aberdar, a Col. Thomas Phillips, Aberdar, allan o Lerpwl Medi yr 2il. Gobeithia lanio yn Boston ar y 9fed. Teithia yn nghwmni yr uchod am ryw bythefnos yn America; bydd yn bresenol yn y cyfarfodydd mawr fwriedir gynal yn Boston Medi 21—27, a bwriada ddychwelyd o Boston y dydd cyntaf o Hydref. Anfoner yr erthyglau, manion a'r marwgofion erbyn y Rhifyn nesaf i

SARNICOL,

Swyddfa'r YMOFYNYDD,

Llandyssul.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS.

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES)
FREE ON REQUEST. . . .

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.